

Nabod y lle?

Mae'n wireb mi wn. Ond dydy o ddim yn llai gwir oherwydd hynny!

Tynnu allan... Beth sy ar ôl?

Tynnwch o Gymru bob lle sy'n dechrau efo 'Llan' – a fydda ni ddim yn adnabod enwau'r tamaid hwn o dir.

Tynnwch allan o Gymru bob capel ym mhob pentref a thref a bro – a fydda ni i ddim yn adnabod tirlun ein bröydd.

Beth fydda ni heb na Bethel a Bethlehem, Carmel a Nasareth? – hebddyn nhw fydda ni ddim yn adnabod pensaernïaeth y darn hwn o dir.

Tynnwch allan o'n hiaith bob idiom a throad ymadrodd a ddeilliodd o'r Beibl. Tynnwch bob arwr ffydd ac arweinydd cymdeithasol hanesyddol sydd wedi dylanwadu ar ein gwerthoedd nad oeddynt wedi eu ffurfio, ei siapio a'i mowldio gan eiriau gras a ffydd – a phrin y bydda ni'n adnabod hanes y bobl hyn.

Dyma bobl a grëwyd gan fwy na seiniau ffrwd a nant, gan dirlun mwy na mynydd a bryn, clogwyn a rhaeadr, chwarel a phwll. Nid tlodi, anghyfiawnder ac anghenion eu cymuned yn unig a'i creodd. Roedd y rhain oll i gyd, wrth gwrs, yn rhan o'r pethau a foldiodd iaith a gwerthoedd a diwylliant. Ond roedd mwy na hynny'n eu mowldio, Un mwy na rhain i gyd yn rhoi tân yn eu calon a hyder yn eu llais. A seiniau adnod ac emyn a llef ddistaw fain a dylanwadau gras a greodd naratifau a roddodd werth ar y bobl hyn ac ar eu hiaith oedd yn fwy na gwerth economaidd masnach a marchnad.

Ar gae rygbi, mewn repertoire corau Cymru, heb ein hemynau a'n tonau beth fyddai cân ein cenedl? Hebddynt a fydda ni'n adnabod seiniau'r darn hwn o dir.

Ac o'i distewi beth tybed fydd anthemau ein diwylliant wedyn? Yn nhreigl yr amseroedd aeth arwyr ein ddoe, lladmeryddion eu ffydd yn eu hoes yn angof. Ac wrth i gapel a

chapel, eglwys a neuadd gau, diffodd a wna'r goleuni, diffodd a wna'r dystiolaeth, tewi mae'r mawl. Roald Dahl a Dylan Thomas – ond Williams pwy? Neu Ann? Neu Evan?

Enwau dibwys gorffennol cul. Hanes ryw hen fodryb ddryslyd sy'n dipyn bach o embaras i ni heddiw.

Ni allaf, ac ni fynaf ddianc rhag hon

Weithiau bron, nad ydwyf yn adnabod y darn hwn o dir mwyach... Ac eto deil crafangau Cymru i wasgu ei ewinedd ynom.

Oherwydd ymhlith ymerodraethau mawr y byd crëwyd cenedl oedd iddi ei hiaith, ei hanes, a'i diwylliant unigryw ei hun. Dyma genedl a gafodd y fraint, o'i dechreuadau arwrol bron, o gael bod yn un o dafodieithoedd y nef. A dyma hil a gafodd frolio am drugaredd yr Hollalluog arni. Dyma genedl fechan, ymhlith cenedloedd byd a gafodd, ac sy'n parhau i gael ei chofleidio ym mwiadau tragwyddol yr Hollalluog Dduw.

Coflaid Gras

Wedi'r cwbl addawodd y digelwyddog Dduw y bydd pobloedd, mor niferus â sêr y nefoedd, gymaint fel na all neb eu rhifo, o bob cenedl, llwyth ac iaith, yn rhan o'i stori dragwyddol fawr o dragwyddol fawl. Ac fe fydd y Gymraeg ynghyd â holl ieithoedd byd i'w chlywed yn y Jerwsalem newydd sy'n disgyn oddi wrth Dduw.

Mewn byd lle mae addewidion Brexitaid yn rhwydd i'w yngan heb fwriad i'w cyflawni rhwydd fyddai tybio nad yw Duw yn alluog i gadw ei air. Mewn oes lle mae ffyddlondeb ond yn para hyd nes y byddwn wedi cael digon ar gadw'r addewid ac annheyngarwch cyfeillion yn rhwygo calonnau briw, cofiwn nad yw'r Arglwydd wedi cefnu ar ei addewidion tuag at ei fyd.

Ac wrth i ni ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, mae heddiw'n parhau i fod yn ddydd o ras. Mae'n dal i fod yn awr lle mae gwahoddiad yr Hollalluog i'r sychedig i ddyfod ato yn cael ei estyn.



Gweddi Dydd Gŵyl Dewi

Arglwydd genhedloedd y byd, diolchwn am ein gwlad, ein hetifeddiaeth, a'n dyfodol gobeithiol ynot ti.

Gweddiwn dros ein gwlad, dros ei chymunedau, ei phobl a'i phlant. Gweddiwn dros ysgolion ein gwlad, ein hysbytai, a'n prifysgolion. Gweddiwn dros ein Cynulliad Cenedlaethol, dros Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol. Gweddiwn y bydd y Cynulliad o dan dy fendith arbennig Di ac y bydd yn fendith yn dy law i'r genedl y mae'n ei wasanaethu.

Gweddiwn dros galon, enaid ac ysbryd ein pobl. Llanwa'n calonnau â'th gariad, ein henaid â'th rym, ein hysbyrd â gweledigaeth ohonot ti – a'r cyfan fel y medrwn wasanaethu'r byd dolurus hwn.

Arglwydd, gogonedda dy Hun yn dy Eglwys a thrwy dy bobl.

Gweddiwn hyn yn Iesu Grist, dy Fab, Amen.